

CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

Cofnodion o Gyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun yr 20fed o Fai 2024 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.

Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies, ynghyd a Shan Jones a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts. Roedd ymddiheuriad gan Cyng WRP Jones a Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a danfonwyd ein cofion cynhesaf ati. Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddi-dordeb** am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.

Aethpwyd ymlaen I gael adroddiad gan Cyng Alwyn Roberts am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor dros y flwyddyn 2023-24.

Adroddodd fod y Cyngor wedi sicrhau bod arian y trethdalwyr yn cael ei weinyddu yn gywir ac effeithiol. Ymatebwyd i faterion etholwyr drwy'r flwyddyn. Roedd trefniadau gyda'r Gardd Goffa wedi mynd yn ei blaen, a'r gwaith wedi cychwyn. Sicrhawyd ddatblygiad y wefan, fydd yn cynnwys holl waith y cyngor, dangos y polisiau a gwybodaeth a rhybudd am gyfarfodydd.

Cyfranwyd i achosion lleol, ac ymatebwyd I geisiadau cynllunio. Hefyd gofalwyd am y toiledau, a llwybrau'r ardal.

Roedd y Cyng Eurgain Davies wedi ymuno efo'r Cyngor yn ystod y flwyddyn aeth heibio. Hefyd ym Mawrth 2024, sicrhawyd gwasanaeth Clerc o'r newydd I ddechrau o flwyddyn 2024-25.

Diolchwyd yn fawr iawn I bawb, yn arbennig Shan Jones y Clerc am ei holl waith.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Ebrill** ar gynnig Cyng.Lona Harris a'i eilio gan Cyng Eurgain Davies.

4. **Materion yn codi a materion eraill.**

- a) **Gardd Goffa** – adroddwyd fod y gwaith yn mynd yn ei flaen, Cytunwyd y byddai rhai Cynghorwyr yn ymweld yn achlysurol er mwyn sicrhau fod popeth yn mynd rhagddo fel cytunwyd. Byddai cymorth gyda darparu blodau er mwyn lleihau costau.
- b) **Toiledau yn Llanegryn** – roedd angen eglurhad am anfoneb gan Scrub a Dub oedd i law am gyfanswm o £150.00. Gofynnwyd I'r Clerc gysylltu gyda Louis Hiatt unwaith eto. Hefyd roedd gwaith trwsio ei angen yn toiledau'r bechgyn.
- c) **Gwefan i'r Cyngor** – yn dilyn y drafodaeth tro diwethaf, roedd pawb yn hapus gyda'r cynnwys.

- d) **Llwybr ger Peniarth Uchaf** – dangoswyd map oedd I law, a byddai'r Clerc yn ei ddsbarthu ymhellach. Roedd y bin ger y fynedfa i'r Comin wedi ei drwsio.
- e) **Contract gwaith i'r Clerc** – roedd y contract wedi ei ddsbarthu i bawb, ac roedd pawb yn hapus gyda'r cynnwys. Adroddodd y Clerc nad oedd am greu cyfeiriad e-bost penodol i'r Cyngor ar hyn o bryd, a chytunwyd i hyn.
- f) **Gwaith PAYE i'r Clerc** – roedd cadarnhad gan EW Owen a'i Chwmni y byddent yn gwneud hyn o ddechrau Ebrill 2024.
- g) **Gohebiaeth SARPA ynglyn a toriadau difrifol i wasanaethau rheilffyrdd** – roedd y Clerc wedi ymateb ar ran y Cyngor yn dilyn y drafodaeth y tro diwethaf.
- h) **Gohebiaeth Anna Lewis**, Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd ynglyn a Cynllun 'Ardal Ni' Bro Dysynni, a chyfarfod yn Neuadd Pendre Tywyn ar Nos Iau 13eg o Fehefin 5.30- 7.30yh. Yn anffodus nid oedd neb ar gael i fynd, ond roedd angen eu sicrhau fod y Cyngor eisiau bod yn rhan o'r cynllun.
- i) **E - bost gan Cyngor Tref Nefyn** ynglyn a bwriad Cyngor Gwynedd I wario £1 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf ar 67 o geir trydan – darllenwyd ymateb Cyng Dyfrig Siencyn ar ran Cyngor Gwynedd i hyn.

5. Ethol Swyddogion 2024-25.

- a) **Cadeirydd** – ar gynnig Cyng William Davies a'l eilio gan Cyng Catrin Rutherford, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Alwyn Roberts yn Gadeirydd am 2024-25.
- b) **Is- Gadeirydd** - ar gynnig Cyng William Davies a'l eilio gan Cyng Eurgain Davies, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Lona Harries yn Is- gadeirydd am 2024-25.

6. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Llanegryn ar gyfer 2024/25

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol – 20/05/24, 24/06/24, 29/07/24, 30/09/24, 25/11/24, 27/01/24, 24/02/25, a byddai'r Clerc yn eu rhoi ar y wefan.

7. Mabwysiadu y Cod Ymddygiad ar gyfer 2024-25 – (dosbarthwyd gopiau caled er gwybodaeth pawb)

Ar gynnig Cyng Lona Harries a'l eilio gan Cyng Eurgain Davies, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y cod ymddygiad ynghyd a'r canlynol;

Rheoliadau ariannol a rheolaidau sefydlog

Asesiad risg y Cyngor (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw i'r Cynghorwyr)

Cofrestr asedau – cadarnhawyd y ffigwr o £10,000 ar gyfer y toiledau yn unig.

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth** (sydd oll ar wefan y Cyngor)

Cynrychiolaeth ar fudiadau allanol – cadarnhawyd enw Cyng Catrin Rutherford ar bwyllgor Meirionnydd o Un Llais Cymru.

8. Materion Cynllunio

Nid oedd unrhyw faterion i law. Roedd angen rhoi gwybod I'r Parc Cenedlaethol am enw Huw fel Clerc newydd.

9. Materion Cyllid.

a) Anfonebau;

Cytunwyd i dalu anfoneb anfoneb Davies Lewis Baker am waith PAYE hyd 5ed Ebrill 2024 am swm o £139.20.

b) **Cyflwynwyd cyfrifon 2023-24** yn swyddogol I'r Cynghorwyr. Roeddent wedi eu paratoi gan Shan ac yn barod i'w danfon i'r archwilydd mewnol.. Cadarnhwyd hefyd fod y cais am ad-daliad y VAT o £280.42 wedi ei wneud gan Shan.

c) Byddai y Clerc yn paratoi y gyllideb erbyn y tro nesaf, hefyd yn edrych ar y polisi yswiriant.

d) Nodwyd fod angen ychwanegu enwau Cyng Eurgain Haf Davies a Cyng Lona Harries i arwyddo ar gyfrif banc y Cyngor.

10. Gohebiaeth.

b) Roedd arolwg iaith yn cael ei gynnal gan Brifysgol Bangor gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd. Byddai'r Clerc yn ei ddisbarthu.

c) Darllenwyd Ymgynghoraid y Parc Cenedlaethol ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl, a thrafodwyd yn faith. Gwelwyd y dylid gadael hwn fel bod pob Cynghorydd yn ateb yn unigol. Byddai'r Clerc yn ei ddisbarthu

d) Darllenwyd e-bost gan y Parc Cenedlaethol ynglyn a lle gwag fel aelod enwebedig o'r Awdurdod. Byddai'r Clerc yn ei ddisbarthu

11. Unrhyw fater arall.

a) Adroddwyd fod ffordd ddiddosbarth o Rhoslefain I gyfeiriad y Ffordd Ddu mewn cyflwr gwael ger Pantgwyn. Byddai'r Clerc yn edrych I mewn i hyn.

b) Gwnaed ymholiad ynglyn a taliad TAW ar waith GT Davies, ac hefyd a oes angen rhan-daliad. Byddai'r Clerc yn siarad gyda Spencer Pugh y Pensaer.

c) Gwelwyd y dylid cyfarfod ymlaenllaw yn y Neuadd am 6.30yh cyn y cyfarfod nesaf i edrych ar y filing cabinets ayyb. Byddai'r Clerc yn cysylltu drwy gyfrwng neges What's app.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 24ain o Fehefin 2024 , 7.30y.h.